**Jane Hutt AC/AM**
**Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**
**Minister for Children, Education, Lifelong Learning and Skills**

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

**DOC 3**

Helen Mary Jones
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

**Ymateb i argymhellion y Pwyllgor Plant a Phobl ifanc yn ei adroddiad *Craffu ar ddatblygiadau mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru (Mai 2009)***

Diolch i chi am eich llythyr yn gofyn am ymateb i'r argymhellion yn eich adroddiad.

Fe welwch yn amgaeedig fy ymateb i'r argymhellion hynny.  Rwy'n ffyddiog ei fod yn rhoi'r wybodaeth berthnasol.

**Ymateb Ysgrifenedig Jane Hutt, y Gweinidog Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, i Argymhellion Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ei ddogfen** *Craffu ar ddatblygiadau mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru (Mai 2009)*

**1. Mae'r Pwyllgor PPPI yn argymell:** y dylid rhoi'r cyfle i aelodau'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol adrodd yn ôl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru.

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Bydd y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol yn edrych yn annibynnol a strategol ar y ffordd y mae gwasanaethau eirioli i blant a phobl ifanc yng Nghymru yn cael eu datblygu a'u darparu. Bwrdd cynghori ydyw a bydd yn cynghori Gweinidogion Cymru ar roi'r *Model ar gyfer Cyflwyno Gwasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc* ar waith. Bydd y Bwrdd yn cwrdd yn annibynnol gan roi cyngor i Weinidogion Cymru yn ôl yr angen. Fel y Gweinidog arweiniol sy'n gyfrifol am ddarparu'r fframwaith eirioli, rwyf wedi ymrwymo i adrodd yn rheolaidd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y cynnydd a wneir. Yn ychwanegol, gall y Bwrdd gyflwyno ei safbwyntiau i'r Cynulliad Cenedlaethol trwy ddulliau eraill, e.e. trwy roi tystiolaeth i bwyllgorau'r Cynulliad.

**Goblygiadau ariannol** – Daw'r arian ar gyfer cynnal y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol a datblygu a chaffael gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol o Linell Wariant Cwnsela ac Eirioli Prif Grŵp Gwariant APADGOS.

**2. Mae'r Pwyllgor PPPI yn argymell:** y dylid gofyn i'r plant a'r bobl ifanc sy'n aelodau o'r Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol yn uniongyrchol a ydynt yn dymuno cael cyfle i gwrdd ar wahân i'r oedolion sydd ar y Bwrdd, cyn ei gyfarfodydd.

**Ymateb: Derbyn**
Cafodd y bobl ifanc sy'n aelodau o'r Bwrdd i gyd wybod pan gawsant eu recriwtio y bydden nhw'n eistedd ar banel cymysg o oedolion a phobl ifanc. Ni fynegwyd gwrthwynebiad i hyn. Bydd cyfarfodydd y Bwrdd yn rhyngweithiol iawn ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau a gweithgareddau blaengar a chyfranogol i wneud yn siwr bod yr holl aelodau yn cymryd rhan lawn bob amser. Caiff Cylch Gorchwyl ei lunio gyda chytundeb yr holl aelodau yn y cyfarfod cyntaf i sicrhau bod pob problem yn cael ei datrys a bod yr holl aelodau'n hapus â'r trefniadau. Ond byddwn yn gofyn yn uniongyrchol i'r Bobl Ifanc yn y cyfarfod cyntaf a fyddan nhw am gwrdd ar wahân i oedolion y Bwrdd cyn y cyfarfod.

**Goblygiadau ariannol** – Daw'r arian ar gyfer cynnal y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol a datblygu a chaffael gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol o Linell Wariant Cwnsela ac Eirioli Prif Grŵp Gwariant APADGOS.

**3. Mae'r Pwyllgor PPPI yn argymell:** y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru egluro pa

gyllid a ddefnyddir i sefydlu'r consortia o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc, i ddatblygu a chomisiynu gwasanaethau eiriolaeth integredig ar y cyd.

**Ymateb: Derbyn**
Nid oes arian ychwanegol penodol wedi'i neilltuo i Bartneriaethau Plant a Phobl ifanc i sefydlu consortia. Rôl y Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yw hwyluso, a dylent alluogi cydweithio a gwella ac ychwanegu gwerth gwasanaethau i'r cwsmer. Mae llawer o Wasanaethau Cymdeithasol yn sefydlu consortia i gomisiynu darparwyr gwasanaethau eirioli ac mae *Canllaw y Model ar gyfer Cyflwyno Gwasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc (2009)* yn annog rhanbarthau/ardaloedd i ystyried y trefniadau hyn fel sylfaen ar gyfer datblygu a chomisiynu gwasanaethau eirioli arbenigol integredig. Bydd yr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad yn cynnig nawdd a chymorth i Bartneriaethau sefydlu eu trefniadau.

**Goblygiadau ariannol** – Amcangyfrifir y bydd angen rhwng £75k-£100k y flwyddyn i redeg yr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad a sefydlwyd o fewn Llywodraeth y Cynulliad. Daw'r arian o gyllideb Costau Rhedeg Dirprwyedig APADGOS

**4. Mae'r Pwyllgor PPPI yn argymell:**
**4.1.** y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru benderfynu ar y gost o sefydlu gwasanaeth eirioli a chynghori dros y ffôn a thrwy ddefnyddio negeseuon testun, sydd am ddim os defnyddiwch ffôn symudol.
**4.2.** Yn dilyn ei benderfyniad, dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod gan yr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad ddigon o arian i sefydlu'r gwasanaeth hwn.

**Ymateb: Derbyn**
**4.1** Un o orchwylion cyntaf y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol fydd edrych ar opsiynau gwahanol ar gyfer datblygu a chaffael Gwasanaeth Eirioli a Chynghori Cenedlaethol, a fydd yn cynnwys gwasanaeth ffôn a thestun am ddim o ffonau symudol. Cynhelir cyfarfod cyntaf y Bwrdd ar 12 Mehefin 2009.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**
**4.2** Bydd trefniadau ariannu tymor hir yn dibynnu ar benderfyniadau cyllidol yn y dyfodol.

**Goblygiadau ariannol** – Cyllideb flwyddyn yr Uned Datblygu Eiriolaeth a Pherfformiad, sy'n cynnwys sefydlu'r gwasanaeth eirioi a chynghori newydd a chostau gweinyddol rhedeg y Bwrdd Eiriolaeth Annibynnol Genedlaethol yw £560k ar gyfer 2009/10. Bydd yn codi i £850k yn 2010/11. Daw'r arian o Linell Wariant Cwnsela ac Eirioli Prif Grŵp Gwariant APADGOS.

**5. Mae'r Pwyllgor PPPI yn argymell:** yng nghanllawiau comisiynu Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc, rhaid iddi osod cyfarwyddyd clir y dylai plant a phobl ifanc allu newid yr eiriolwr proffesiynol sy'n eu cynrychioli, heb iddynt orfod egluro pam eu bod yn anhapus ac eisiau ei newid.

**Ymateb: Derbyn**

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn cael ei osod allan yn glir ac yn benodol ar gyfer y Batneriaeth Plant a Phobl ifanc yng *Nghanllaw y Model ar gyfer Cyflwyno Gwasanaethau Eirioli i Blant a Phobl Ifanc (2009),* y canllaw statudol Llywodraeth Cynulliad Cymru – *Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Effeithiol i Blant a Phobl Ifanc sy'n Gwneud Cynrychiolaeth neu Gwyn dan Ddeddf Plant 1989 (cyfeirir at bwynt 2.15)* a'r *Safonau Cenedlaethol a'r gyfer Darparu Gwasanaethau Eiriolaeth Plant (cyfeirir at safon 1).* Bydd y canllaw statudol sy'n dilyn hefyd yn adlewyrchu'r argymhelliad hwn.

**Goblygiadau ariannol** – Dim.